# Creu **blwch nythu**

Meddyliwch – yn fuan, gallai'r blwch rydych chi'n ei greu fod yn llawn o gywion bach!

## Byddwch angen

- Astell bren 150-180mm o led, 1330-1580mm o hyd a 15mm o drwch
- 14 o hoelion pen crwn wedi'u trin, 3.5cm o hyd
- 6 o hoelion pen crwn bychan wedi'u trin, 15mm o hyd
- Stribed o rwber (fel tiwb mewnol hen feic)
- Morthwyl bychan

**1** Gofynnwch i oedolyn dorri'r astell bren i'r maint a ddangosir yma a gwneud twll ym mlaen y blwch.




**2** Cysylltwch yr ochrau i'r cefn gyda thair hoelen bob ochr.

**3** Gosodwch y darn gwaelod yn ei le a'i hoelio i'r ochrau. Defnyddiwch ddwy hoelen bob ochr.

**4** Hoeliwch y blaen i'r ochrau gyda phedair hoelen.

## Cadw'n ddiogel

Defnyddiwch y morthwyl yn ofalus ac araf – mae taro'r hoelion yn dyner yn well na tharo'n wyllt. Gofalwch rhag taro'ch bysedd eich hun na neb arall.

**5** Gyda'r hoelion bychan, glynnwch un ochr o'r stribed rwber i'r pren fel caead – hwn fydd y colfach. Rhowch y caead ar ben y blwch a hoelio ochr arall y stribed rwber i'r blwch. Ond peidiwch â hoelio'r caead i lawr, wrth gwrs!

**6** Ffeindiwch fan tawel yn yr ardd. Bydd yr ardal delfrydol rhwng dau a phumb metr o'r ddaear, ddim o fewn cyrraedd cathod, ac yn wynebu rhwng y gogledd a'r dwyrain. Os ydych yn ei roi mewn coeden, defnyddiwch wifren yn hytrach na hoelion.

yn rhoi cartref i fyd natur

Mae'r RSPB yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr, yn Yr Alban SC037654 040-1-0513-16-17
Lluniau gan Eleanor Bentall (rspb-images.com).